COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU AR FFURF HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DDYDD MERCHER, 27 CHWEFROR 2024 AM 11:00

Yn bresennol

Cynghorydd M Lewis – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| R Williams | J E Pratt | S J Bletsoe | RM James |
| MJ Kearn | H T Bennett | A R Berrow | |
| P W Jenkins | S Easterbrook | | |

Yn Bresennol yn Rhithiol

J Llewellyn-Hopkins R J Smith

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

RJ Collins

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Kirsty Evans | Senior Licensing Officer |
| Julie Ellams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Andrea Lee | Uwch Cyfreithiwr |

Datganiadau o Ddiddordeb

Dim

**24. Cymeradwyaeth Cofnodion**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Y dylid cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Trwyddedu a Phwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 a gynhaliwyd ar 24 Mai 2023 fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 27 Chwefror 2024 |

## 25. Cais i Ganiatáu defnyddio Brandio Corfforaethol ar Gerbydau sy'n eiddo i Veezu

<table>
<tr>
<td>Y penderfyniad a wnaed</td>
<td>
Ni chymerodd Cyngh M Kearn a R Smith ran yn yr eitem hon gan nad oeddent yn bresennol yn y Siambr ac ni lwyddont i archwilio’r cerbyd, ac felly ni fu iddynt gymryd rhan yn y drafodaeth a’r penderfyniad.
Cyflwynodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu adroddiad yn gofyn i Aelodau benderfynu ar gais i ganiatau’r defnydd o frandio corfforaethol ar gerbydau sydd dan berchnogaeth Veezu. Ychwanegodd fod swyddogion wedi dirprwyo awdurdod i ganiatau hysbysebion, fodd bynnag, gan fod brandio llawn wedi’i geisio, gofynnwyd i Aelodau benderfynu ar y cais y tro hwn. Nid oedd y cerbyd y byddent yn ei archwilio wedi’i drwyddedu ar hyn o bryd gyda Chyngor Pen-y-bont ar Ogwr ac nid cais ar gyfer y cerbyd penodol hwn oedd dan sylw, dim ond rhoi enghraifft o’r brandio oedd y bwriad.
Bu i’r aelodau archwilio’r cerbyd ac yna dychwelyd i’r Siambr i drafod y cais.
Cafodd K Oram o Veezu ei chyflwyno gan Reolwr y Tîm Trwyddedu a dywedodd y byddai ar gael i ateb unrhyw gwestiynau.
Cododd yr aelodau amryw o faterion a chawsant wybod:
<ul>
<li>Byddai pob cerbyd yn cydymffurfio ag amodau cerbydau Hackney gan gynnwys golau ar y to.</li>
<li>Ar wahân i’r Cynllun Peilot Fflyd Werdd, hwn oedd y cais cyntaf ar gyfer brandio llawn.</li>
<li>Roedd yr holl arwyddion yn helpu i sicrhau y byddai’r cerbyd yn fwy gweledol i deithwyr, yn gwella diogelwch i deithwyr bregus ac yn denu mwy o sylw er mwyn hysbysebu’r brand.</li>
<li>Ar hyn o bryd roedd ganddynt bedwar neu bump o gerbydau hybrid wedi’u neilltuo ac os caiff y cais ei gymeradwyo, fe ychwanegir y rhain at y fflyd. Byddai hyn yn cynrychioli 10% o’u fflyd ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr.</li>
<li>Gallai partner gyrru logi cerbyd gyda brandio gan Veezu er mai cais am gerbydau Veezu yn unig oedd hwn.</li>
<li>Dim ond cerbydau hybrid fyddai â branndio Veezu arnynt. Yn ddiweddar bu i Veezu gyfnewid 40 o gerbydau gyda 40 o rai hybrid, o fewn eu fflyd o tua 130 ar draws de Cymru a’r de orllewin. Roeddynt yn gwneud hyn mewn camau gyda’r nod o gyfnewid pob cerbyd yn rhai hybrid.</li>
<li>Pe byddai cerbyd yn cael ei dynnu oddi ar y ffordd am ba bynnag reswm, byddai’r brandio’n cael ei dynnu yn yr un modd ag y gwneir gyda’r platiau rhifau. Byddai contract ar waith hefyd i sicrhau y</li>
</ul>
</td>
</tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | byddai hynny'n digwydd gyda phartneriaid gyrru hefyd.<br>• O ran pryderon ynghylch cerbydau'n cael eu gwerthu ac ati, magnet oedd yr arwydd ar ddrws cefn y cerbyd ac mai modd ei dynnu. Sticer oedd y brandio ac mae posib ei dynnu ond nid oes modd ei roi yn ôl wedyn.<br>• Pe byddai cerbyd yn cael ei werthu gyda'r brandio arno yna gellid cymryd camau gorfodi, ond pwysleisiodd y cynrychiolydd o Veezu na fyddai hynny'n digwydd.<br>• Nodwyd y gallai cwmnïau eraill ymgeisio am frandio llawn yn y dyfodol.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u><br><br>Caniatau'r defnydd o frandio ar gerbydau sydd yn berchen i Veezu ar gyfer blaen, to ac ochrau'r cerbydau. Diffinnir y brandio fel y V's yn unig gan y Pwyllgor. Caniateir y sticer drws Veezu ar ochrau'r cerbyd ynghyd ag arwyddion y Cyngor; ni chaniateir unrhyw hysbysebu arall ar ochrau'r cerbyd h.y. "car eco". Dim ond y brandio (V's) a ganiateir ar do ac ar fonet blaen y cerbyd. Ni chaniateir unrhyw frandio na hysbysebu ar gefn y cerbyd, dim ond arwyddion y Cyngor.<br><br>Mae'r brandio a gymeradwyir yr un fath â'r argraffiad digidol ar y brandio corfforaethol, fel y cyflwynwyd gyda'r cais (Atodiad B). Rhesymeg yr aelodau ynghylch peidio rhoi brandio ar gefn y cerbyd a dim hysbysebion eraill ychwaith, oedd y byddai'r cyfan yn rhy brysur ac y byddai'r Bathodyn Trwyddedu'n anodd ei weld. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 27 Chwefror 2024 |

**26. Trefn Profi Tacsi Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Rhoddodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu ddiweddariad i'r aelodau ar yr astudiaeth ddichonoldeb mewn perthynas â chynllun profi tacsis Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC). Eglurodd y cafwyd cadarnhad y byddai'r trefniadau profi presennol yn para am y cyfnod cychwynnol penodol a gytunwyd rhwng y naill barti, sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2025. Oherwydd y dyddiad penodol a rhwymedig hwn, byddai'r astudiaeth ddichonoldeb nawr yn digwydd yn y flwyddyn ariannol 2024-25. Byddai hyn yn sicrhau y byddai gan yr Aelodau y wybodaeth ddiweddaraf a pherthnasol i'w galluogi i wneud penderfyniad deallus.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Nododd yr aelodau gynnwys yr adroddiad a chytuno i ddisgwyl gweld adroddiad dichonolrwydd ar fodelau amgen o awdurdodi dyletswyddau statudol mewn perthynas â phrofi a thrwyddedu tacsis (cerbydau Hackney a llogi preifat). |

| | |
|---|---|
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 27 Chwefror 2024 |

## 27. Materion Brys

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Dim |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 27 Chwefror 2024 |

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon